# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

**372- Beirniadaeth Cyfansoddi Sgript Wreiddiol Bl. 7, 8 a 9**

**Beirniad – Lleucu Sion**

Diolch i bawb a wnaeth gystadlu ar y gystadleuaeth hon eleni. Fe wnes i fwynhau darllen pob darn, ac mae potensial i'w weld yng ngwaith pawb. Tasg anodd ydi creu sgrit, mae'n golygu meddwl am stori a strwythr, creu cymeriadau bachog a gallu ysgrifennu deialog naturiol. Roedd y gwaith a ddaeth i law yn gwneud hyn, ond fe fyddwn i'n awgrymu y dylai'r ymgeiswyr gofio darllen dros eu gwaith cyn ei gyflwyno, a chofio meddwl wrth ddeialogi os mai fel hyn mae pobol yn siarad. Efallai bod lle i geisio rhoi deialog byrrach a bachog, a chofio nad oes angen i'r cymeriadau ddweud popeth. Mae modd i gymeriadau gyfleu teimlad neu emosiwn drwy gyfarwyddiadau llwyfan hefyd. Dylai pob ymgeisydd barhau i ysgrifennu.

Leisa James

Dwi wedi mwynhau darllen am Bob a Leila yn arw. Ti'n ysgrifennu yn naturiol iawn. Ti wedi llwyddo i greu stroi sy'n mynd a ni ar daith, ac wedi creu darlun clir o sut gymeriadau ydi Bob a Leila, yn ogystal a'r berthynas sydd gan y ddau. Ti wedi ychwanegu tro bach yn y gynffon ar ddiwedd y darn gyda dant Leila yn dod allan, oedd yn hollol annisgwyl ac yn ddoniol iawn. Llongyfarchiadau i ti ar y darn. Caria ymlaen i 'sgwennu – mae gen ti syniadau da, a dawn dweud wrth ysgrifennu sgript.

Nel Dafis

Darn emosiynol iawn, sy'n trin a thrafod pwnc pwysig iawn. Da iawn ti am benderfynu taclo rhywbeth sy'n gallu bod yn anodd iawn i bobol – hen ac ifanc. Ti'n dangos bod gen ti ddealltwriaeth o'r ddwy gymeriad yn dy sgript, ac er bod Kelsey wedi gwneud rhywbeth cas, rydan ni'n dod i ddeall pam ac yn cydymdeimlo efo hi erbyn y diwedd. Ti ddim ofn taclo pynciau mawr, emosiynol ac mae hyn yn rhywbeth i'w gymeradwyo. Caria ymlaen i ysgrifennu Nel, mae gen ti glust dda, ac fe wnes di lwyddo i ddechrau sgript efo drama, a gorffen gan adael y gynulleidfa eisiau clywed mwy. Da iawn.

# <u>Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022</u>

<u>Enid Evans</u>

Darn sydd wedi ei ysgrifennu yn naturiol iawn, a dyma yn union sydd ei angen mewn sgript – deialog sy'n swnio yn naturiol. Ti wedi llwyddo i greu stori mewn amser byr iawn, ac mae'n cyd-fynd a'r thema o Ennill a Cholli, yn enwedig gan bod y merched ar eu colled eto ar y diwedd gen ti. Gwaith da iawn – caria 'mlaen i 'sgwennu, mae gen ti glust i ddeialog.

<u>Bronwyn Francis</u>

Darn o waith sy'n llwyddo i gyflwyno lot o wybodaeth diddorol a phwysig am yr Urdd, ond tybed os oes modd rhannu'r wybodaeth yma mewn modd sydd ychydig yn fwy hwyliog? Mae'n alwg bod gen ti lot o hiwrmor gan bod y linell am fod ar lein a lein ddillad yn ddoniol iawn. Beth am i ti geisio defnyddio mwy o'r hiwmor yma yn y dyfodol? Gweld Syr Ifan yn ceisio mynd ar lein efallai? Wrth gyflwyno gwybodaeth ar ffurff sydd ychydig yn wahanol mae pobol yn tueddu i wrando ac i gofio yn well. Caria 'mla'n i 'sgwennu!

<u>Leusa Davies</u>

Roedd hi'n braf iawn darllen darn am berthynas Alys a'i mam, a'r ffaith bod hanes yn ailadrodd ei hun. Dwi'n meddwl bod yna botensial i ti fynd a'r darn yma ymhellch – beth ydi ymateb Alys i gyngor ei mam? Be sy'n digwydd nesa? Roedd dewis ysgrifennu monolog i'r fam yn syniad da iawn, ac yn gyfle i glywed be sy'n digwydd ym mhen y cymeriad. Cofia barhau i ysgrifennu, er nad wyt ti wedi bod yn llwyddiannus tro 'ma, mae gen ti botensial mawr yn enwedig os ei di ychydig pellach gyda'r stori tro nesa.

<u>Megan Griffiths</u>

Mae hwn yn ddarn emosiynol iawn, ac mae' amlwg dy fod di wedi meddwl yn hir am y syniad o ennill a cholli. Mae hi'n amlwg bod Lois yn dioddef yn arw ers colli ei chwaer, ond gan mai dim ond clywed am Anest ydan ni efallai y byddai clywed ambell stori neu atgof

penodol am Anest wedi gweithio yn dda er mwyn i deimlo ein bod ni'n dod i adnabod Anest, ac o ganlyniad yn teimlo hyd yn oed mwy o gydymdeimlad at Lois. Mae ysgrifennu darn mor emosiynol yn ddewr iawn, a dwi'n meddwl bod y ffaith i ti feddwl tu allan i'r bocs gyda'r thema yn rhywbeth i'w ddathlu. Caria ymlaen i ysgrifennu – mae gen ti ddychymyg gwych.

Non Dafydd

Darn bywiog iawn, sy'n dechrau efo digon o ddrama a wmff. Roedd hi'n braf iawn darllen darn oedd yn cynnwys hiwmor, a mi ddylia ti'n bendant ddatblygu'r hiwmor hwnnw wrth ysgrifennu – mae Cymru yn brin o bobol sy'n gallu 'sgwennu pethau doniol! Mae gen ti ddechrau cryf, a diweddglo hapus, gyda'r ddwy linell olaf yn codi gwen. Caria ymlaen i ysgrifennu – dwi'n edrych ymlaen i glywed mwy gen ti.

Peni Macy

Dyma ddarn sy'n dangos perthynas brawd a chwaer yn berffaith – y ffraeo, a'r cwyno a'r ddau mor benderfynol o ennill. Mae 'na anwyldeb yn y darn, a'r linell olaf yn cloi y sgript yn berffaith. Mae gen ti glust dda i ddeialog Peni, a ti'n amlwg yn un dda am wrando a chofio sut beth ydi ffraeo wrth ysgrifennu. Mae'r ddeialog yn gallu swnio chydig bach yn ffurfiol ar adegau – cofia ein bod ni angen ysgrifennu fel 'da ni'n siarad wrth ysgrifennu sgript. Caria 'mlaen i ysgrifennu, mae gen ti ddawn dweud da iawn.

1af – Leisa James
2il – Nel Dafis
3ydd – Enid Evans